



Cynllun Iaith Gymraeg

Tai Wales & West

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Y Ddeddf) a'r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg yn wreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) y Ddeddf ar 25/11/2010.

Cymeradwywyd y cynllun diwygiedig gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 23/02/2023

1.0 Datganiad Agoriadol

1.1 Nod y Cynllun:

Mae Tai Wales & West (TWW) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Amcanion:

- Galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sy'n trafod gyda TWW i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn
- Sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg o ansawdd uchel
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

1.3 Mae TWW yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Gan hynny, bydd TWW yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor uchod.

Am wybodaeth bellach am ein Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun), cysylltwch ag:

Amanda Harries
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
Tai Wales & West
0800 052 2526
Amanda.Harries@wwha.co.uk

2.0 Cyflwyniad

2.1 Cefndir a gwerthoedd corfforaethol

Mae TWW yn sefydliad elusennol sy'n cael ei rheoli gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol. Mae'r sefydliad yn gweithredu yn 15 o Awdurdodau Lleol Cymru.

Nod TWW yw bod yn ddewis cyntaf ar gyfer cartrefi a gwasanaethau. Mae ganddi dri phrif nod:

1. Darparu llety o ansawdd da.
2. Bod yn landlord rhagorol.
3. Datblygu a chefnogi cymunedau i gwrdd ag anghenion lleol.

Er mwyn cefnogi'r nodau hyn, mae TWW wedi datblygu nifer o amcanion - y pethau y byddwn yn eu gwneud i'n helpu i gyflawni ein nodau a darparu rhagoriaeth i'n cwsmeriaid. Y rhain, mewn gwirionedd, yw ein blaenoriaethau yn seiliedig ar yr hyn y mae ein preswylwyr a'n staff wedi dweud wrthym sy'n bwysig.

- 2.2** Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni. Maen nhw'n adlewyrchu ein diwylliant, ein hethos cyfan, ac maen nhw'n rhan annatod o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Ein gwerthoedd fydd:-

Tegwch:	yn gytbwys, gan roi clod lle mae'n ddyledus a rhoi beirniadaeth adeiladol. Yn gynhwysol yn ein ffordd o wneud pethau, gan barchu urddas a natur unigol pawb.
Agored:	yn agored i newid, yn ymrwymedig i welliant ac addysg barhaus. Yn dryloyw, gonest a dibynadwy.
Cyfrifol:	yn broffesiynol, gan herio trefniadau sydd eisoes yn bod. Perchnogi materion a defnyddio ein menter i'w cyflawni.
Cefnogol:	yn hawdd gwneud â ni, yn hawdd dod atom, ac yn hygyrch. Yn groesawgar, yn ofalgar, yn barod i wrando ac ymateb.
Effeithlon:	gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau fod ein gweithgarwch yn cael yr effaith orau posibl.

2.3 Strwythur ac ardal gweithredu

Mae gan TWW Brif Swyddfa yng Nghaerdydd, Swyddfa Gogledd Cymru yn Ewloe, Glannau Dyfrdwy a Swyddfa Gorllewin Cymru yng Nghastellnewydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin. Rydym yn rheoli dros 12,000 o gartrefi ar draws Cymru gyfan, o Gaerdydd yn y de i'r Fflint yn y gogledd, Sir Benfro yn y gorllewin a Bowys yn y dwyrain, gan ddarparu cartrefi i dros 22,000 o bobl. Rheolir mwyafrif ein cartrefi ar sail rhent, a thra bod y gyfran fwyaf yn llety anghenion cyffredinol, mae tua un o bob tri chartref wedi cael ei ddatblygu'n benodol ar gyfer pobl hŷn (dros 55 oed).

Cyfrifoldeb Tîm y Cyfarwyddwyr yw rhedeg TWW o ddydd i ddydd – Prif Weithredwr y Grŵp, Dirprwy Brif Weithredwr y Grŵp, y Cyfarwyddwr Gweithredol (Adnoddau), Cyfarwyddwr Gweithredol (Asedau) a'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Technoleg a Thrawsnewid). Mae ein Bwrdd Rheoli'n cytuno ar benderfyniadau mawr, fel y rhai sy'n

cynnwys polisiâu neu gyfeiriad strategol. Mae pob Aelod o'r Bwrdd yn gwasanaethu am dymor o 3 blynedd.


2.4 Defnyddwyr y gwasanaeth

Mae TWW yn cynnig cartrefi a gwasanaethau o ansawdd i ystod amrywiol o gwsmeriaid, ac yn gweithio'n agos â'n partneriaid i ddatblygu a chefnogi cymunedau lleol. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys preswylwyr, ymgeiswyr am dai, awdurdodau lleol, cyrff statudol, asiantaethau gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac unigolion yn y cymunedau lle rydym yn gweithredu.

2.5 Yr Iaith Gymraeg

Mae TWW yn berchen ar gartrefi neu'n rheoli cartrefi mewn 15 awdurdod lleol drwy Gymru gyfan. Mae nifer fwyaf y cartrefi yn ardal awdurdod lleol Caerdydd, gyda thros 3,000 o gartrefi. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys yr ail grynhoed mwyaf o eiddo, gyda thros 1,300 o gartrefi yno. Yn Abertawe y gwelir ein stoc isaf o gartrefi, sef 65.

Mae'r bariau ar graff 1 yn dangos stoc y Gymdeithas fesul Awdurdod Lleol. Mae'r graff llinell yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011.



Mae'r graff yn dangos yn glir bod swm mwyaf cartrefi TWW mewn Awdurdodau Lleol lle y mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn llai ar y cyfan, ac eithrio Ceredigion. Er hynny, canran gyfartalog y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn y 15 Awdurdod Lleol lle mae TWW yn gweithredu yw 19%, sy'n dynodi bod TWW yn gweithio mewn ardaloedd lle mae cyfrannau mawr o siaradwyr Cymraeg, ac yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 19% yn ôl Cyfrifiad 2011.

3.0 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

3.1 Polisiâu a mentrau

- 3.1.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd TWW yn asesu eu heffaith ieithyddol, gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.
- 3.1.2 Bydd TWW yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni newidir y Cynllun hwn heb sicrhau cytundeb Comisiynydd y Gymraeg yn gyntaf.
- 3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau TWW dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 3.1.4 Gall Cymdeithasau Tai gyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel leol neu gymunedol, a byddwn yn anelu at sicrhau fod polisiâu a mentrau newydd TWW yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

3.2 Darparu gwasanaethau

- 3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cymaint o'n gwasanaethau ag y bo modd ar gael yn y Gymraeg, a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fyddant ar gael.
- 3.2.2 Bydd TWW yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:
- Trefnu'r tîm gwasanaethu fel bod staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gallu delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
 - Galluogi swyddogion o un swyddfa a all siarad Cymraeg i gynorthwyo swyddfa arall fel bo'r angen;
 - Mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth;
 - Cyflogi cyfieithwyr proffesiynol;
 - Codi ymwybyddiaeth ymysg staff TWW o ofynion y Cynllun Iaith;
 - Ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau Cymraeg trwy hyfforddi a phenodi.

3.3 Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

- 3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn.
- 3.3.2 Bydd TWW yn annog eraill yn y gymuned, gan gynnwys cyrff gwirfoddol a chwmnïau, i ddefnyddio'r Gymraeg.

Partneriaethau

3.3.3 Mae TWW yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Rydym yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- Pan fo TWW yn arwain partneriaeth yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith
- Pan fo TWW yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd cyfraniad TWW at y bartneriaeth yn cydymffurfio a'r Cynllun Iaith, a bydd TWW yn annog partïon eraill i gydymffurfio
- Pan fo TWW yn gweithredu fel rhan o gonsortïwm, bydd yn annog y consortïwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortïwm bydd TWW yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.

3.3.4 Bydd TWW yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

3.4 Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg o ansawdd cyfartal, a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

4.0 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

4.1.1 Mae TWW yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.

4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon, ac ni ddylai gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi.

4.1.3 Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg (os oes angen ymateb).

4.1.4 Bydd yr holl ohebiaeth yn dilyn sgwrs ar y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y Gymraeg, neu gyfarfod lle y cadarnhawyd y byddai'n well gan unigolyn ohebu yn y Gymraeg, yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.5 Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân o unrhyw ohebiaeth, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasol).

4.1.6 Byddwn yn cadw cofnod o'r sawl sy'n dymuno delio â TWW yn y Gymraeg.

4.1.7 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebu a threfnu cyfieithu.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

4.2.1 Mae TWW yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg, a'n harfer safonol yw sicrhau y Tudalen 6 o 12

gall y cyhoedd siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio â TWW dros y ffôn.

4.2.2 Er mwyn cyflawni ein nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â TWW yn y Gymraeg dros y ffôn:

- Darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt
- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

4.3.1 Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan TWW, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, byddwn yn egluro i'r rhai a fydd yn bresennol y bydd croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd amgylchiadau lle y bydd hi'n briodol, ar sail gwybodaeth, i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn y Gymraeg yn unig neu yn y Saesneg yn unig.

4.3.2 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir, neu os yw'n hysbys bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yno, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu lle bo'n gymwys.

4.3.3 Yn ogystal ag offer cyfieithu, byddwn yn asesu'r angen i aelodau'r staff sy'n siarad Cymraeg i fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd a delio â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn amlygu eu galluoedd ieithyddol mewn cyfarfodydd, er enghraifft, trwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau a laniardiau "Iaith Gwaith" Comisiynydd y Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd eraill

4.4.1 Mae TWW yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni all warantu cyfarfod wyneb i wyneb yn y Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio'n gwrtais beth yw'r sefyllfa a chynnig dewisiadau eraill, megis trefnu cyfieithu neu barhau â'r cyfarfod yn y Saesneg.

4.4.2 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf, a lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod cymwys o staff sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

4.4.3 Os yw'n amlwg bod galw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg, a'n bod yn methu cwrdd â'r gofyn hwnnw, byddwn yn ystyried camau gweithredu megis hyfforddi neu benodi staff dwyieithog.

4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag byddwn yn delio â'r cyhoedd.

4.5.2 Mae TWW yn ymrwymedig i alluogi'r cyhoedd i ddelio â ni yn y Gymraeg trwy ohebiaeth

electronig, ar-lein neu drwy gyfryngau eraill.

5.0 Wyneb cyhoeddus TWW

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Mae TWW yn ymroddedig i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a byddwn yn mabwysiadu delwedd gyhoeddus ddwyieithog yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailosod unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau fod fersiynau newydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog.

5.2.2 Bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parchu egwyddor cydraddoldeb iaith.

5.2.3 Arfer safonol TWW fydd darparu arwyddion dwyieithog, ond mewn achosion pan gaiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.2.4 Mae prosesau yn eu lle i sicrhau cywirdeb testun, a byddwn yn cydlynu ac yn adolygu hyn yn ofalus, yn enwedig pan fydd gwaith yn cael ei roi ar gontract.

5.2.5 Wrth ddatblygu stad newydd o dai neu gartrefi eraill, bydd TWW yn cynnig enw sydd â chysylltiad â threftadaeth a hanes yr ardal.

5.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol, neu'r rhai a anelwyd at y cyhoedd, mewn ffurf ddwyieithog yn gyffredinol.

5.3.2 Ein harfer safonol fydd darparu cyhoeddiadau dwyieithog, ond mewn rhai achosion am resymau ymarferol, byddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn achosion o'r fath byddwn yn dosbarthu'r fersiynau yr un pryd a gyda'i gilydd. Byddant hefyd yr un mor hawdd i'w cael a bydd y ddwy fersiwn yn cynnwys neges yn dweud bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall.

5.3.3 Pan gyhoeddir dogfen â phris iddi, ni fydd pris fersiwn Cymraeg y ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

5.3.4 Byddwn yn sicrhau bod staff a'r rhai sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi â'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

5.3.5 Bydd TWW yn ystyried cyfleoedd i gydweithio â chyrrff eraill i gynhyrchu gwaith i'w gyhoeddi sy'n debyg neu'r un fath.

5.3.6 Bydd dogfennau allweddol ar gael mewn ffurf ddwyieithog ar ein gwefan.

5.3.7 Byddwn yn sicrhau bod testun Cymraeg ein cyhoeddiadau o safon uchel, a bod y cywair yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

5.4.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog lle mae'n rhesymol ymarferol ac yn addas dan yr amgylchiadau.

5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.4.3 Mewn rhai achosion (efallai oherwydd cymhlethdod ffurflen) ni fydd cynhyrchu fersiwn dwyieithog yn ymarferol, a gallai fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg:

- Gael eu cyhoeddi ar yr un pryd
- Bod ar gael yr un mor hawdd mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill
- Cael eu dosbarthu gyda'i gilydd, ac yn
- Cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall.

5.4.4 Bydd TWW yn ceisio darganfod dewis iaith aelodau'r cyhoedd trwy gynnwys cwestiwn 'dewis iaith' yn y ffurflen gyntaf mewn cyfres. Unwaith y bydd dewis iaith unigolyn yn hysbys, byddwn yn dosbarthu deunydd Cymraeg, Saesneg, neu ddwyieithog o hynny ymlaen fel sy'n briodol.

5.4.5 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb termau yn arfer rheolaidd wrth baratoi ffurflenni.

5.5 Datganiadau i'r wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus TWW, felly byddwn yn eu cyhoeddi'n ddwyieithog lle bo'n briodol dan yr amgylchiadau.

5.6 Ymgyrchoedd marchnata a chyhoeddusrwydd

Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff

5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog lle bo'n briodol dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg.

5.7.3 Darperir pecynnau gwybodaeth, megis swydd ddisgrifiadau a manylebau personol yn

y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.

- 5.7.4 Bydd hysbysebion swyddi lle y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol yn ymddangos yn y Gymraeg ym mhob cyhoeddiad, gyda nodyn esboniadol yn y Saesneg mewn cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

6.0 Gweithredu ac arolygu'r Cynllun

6.1 Staffio

- 6.1.1 Bydd TWW yn rhoi trefniadau yn eu lle, i'r graddau y bydd hynny'n rhesymol o ymarferol, i sicrhau bod gan bob un o'i gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd ddigon o staff ar gael sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg. Bydd y graddau y bydd hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn ddibynnol ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.

- 6.1.2 Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau trwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi, neu drwy ystyried y posibilrwydd o ail-leoli staff yn fewnol.

- 6.1.3 Byddwn yn pennu gofynion Cymraeg (dymunol neu hanfodol) ar gyfer rhai swyddi, gan ystyried y ffactorau canlynol:

- Swm ac amllder y cysylltiad gyda'r cyhoedd
- Gallu cyfredol y swyddfa i gyflwyno gwasanaeth wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg
- Arbenigedd y swydd, h.y. efallai bod sgiliau Cymraeg yn allweddol mewn rhai meysydd penodol
- Os yw'n swydd mewn ardal benodol, asesiad o nifer/canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

- 6.1.4 Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig am wasanaeth Cymraeg.

- 6.1.5 Byddwn yn cynyddu adnoddau ar gyfer gweithredu'r Cynllun iaith mewn modd sensitif drwy annog a chefnogi holl aelodau staff i gymryd rhan. Byddwn yn meithrin sgiliau yn yr iaith ynghyd ag agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Byddwn yn sicrhau na fydd aelodau o staff Di-Gymraeg yn teimlo dan fygythiad, ac ni ddylid rhwystro'r rhai sydd am ddysgu'r Gymraeg rhag ymarfer yr iaith. Byddwn yn trin sgiliau ieithyddol mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd angen eu datblygu yn y gweithle.

6.2 Recriwtio

- 6.2.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn meddu ar sgiliau Cymraeg, nodir hyn yn glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwyster y mae ei angen ar gyfer y swydd, er enghraifft "yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl".

6.2.2 Os penodir ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at lefel benodol o fedrusrwydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o'r amodau cyflogi. Caiff cynnydd tuag at y targed ei fonitro'n rheolaidd.

6.3 Hyfforddiant Cymraeg

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn trwy annog a chefnogi aelodau o staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

6.3.2 Byddwn yn cynllunio ein rhaglen hyfforddiant yn ofalus ac yn canolbwyntio adnoddau ar y rhannau hynny o'n gwasanaeth lle bydd cyfathrebu aml gyda siaradwyr Cymraeg, neu lle mae gofynion ieithyddol i'r swydd.

6.3.3 Mae'n fuddiol bod dysgwyr yn gwybod am gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg a byddwn yn annog y staff i geisio cynorthwyo'r rheiny sy'n dysgu.

6.3.4 Bydd geiriaduron a deunydd electronig ar gael i gynorthwyo staff sy'n dysgu Cymraeg a staff sy'n dymuno gloywi eu hiaith.

6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

Bydd Rheolwyr a staff Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb dros hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg penodol ar gyfer staff.

6.5 Trefniadau Gweinyddol

6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn TWW. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad y Cynllun Iaith, ac mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff TWW i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.

6.5.2 Bydd gan Reolwyr gyfrifoldeb dros weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith.

6.5.3 Byddwn yn enwi aelod presennol o staff i fod yn gyfrifol am gydlynu a monitro gwaith y Cynllun o ddydd i ddydd.

6.5.4 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, byddwn yn darparu adnoddau megis geiriaduron, meddalwedd terminoleg Cymraeg a meddalwedd eraill cyfrwng Cymraeg i staff.

6.6 Arolygu gweithredu'r Cynllun

6.6.1 Cyfrifoldeb y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yw monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

6.6.2 Bydd monitro'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus â strwythur iddo. Bydd hyn yn cynnwys gwaith monitro yn y meysydd canlynol:

- Cydymffurfiaeth â'r Cynllun
- Ansawdd y gwasanaeth – edrych ar gwynion a'r gwasanaeth rheng flaen
- Rheoli a gweinyddu
- Digonolrwydd sgiliau ieithyddol – yn seiliedig ar ymrwymadau 6.1-6.4
- Prif ffrydio

6.6.3 Byddwn yn defnyddio trefn gwyno arferol TWW i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn, ac yn sicrhau bod modd monitro cwynion penodol am y Cynllun.

6.6.4 Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol ac yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau i'r Cynllun a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

6.7 Cyhoeddi gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle y gall aelod o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

6.8 Cyhoeddusrwydd

6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â TWW yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent ddelio â TWW yn y Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, gan gynnwys sicrhau y bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau TWW yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y Cynllun, er mwyn gwneud yn siŵr y telir sylw i'r mesurau bob tro mae hynny'n briodol.